



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 27 Mehefin 2018

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD LLUN, 2 GORFFENAF 2018** am **3.30 pm** yn **CABINET ROOM, COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 02 Mai 2018 (copi wedi'i amgáu)

5 ADRODDIAD MONITRO IAITH GYMRAEG BLYNYDDOL (Tudalennau 11 - 30)

I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2071/18.

6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 31 - 32)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Paul Penlington
Arwel Roberts

Anton Sampson
Tony Thomas
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cyngorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Mercher, 2 Mai 2018 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Tony Thomas (Is-gadeirydd), Graham Timms (Cadeirydd), Joe Welch ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS)
Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (GW)
Swyddog y Gymraeg (MC)
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP)
Gweinyddwr y Pwyllgor (RHT-J)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Paul Penlington ac Anton Sampson.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

3 MATERION BRYG FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryg.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017.

Materion yn Codi:

Fe drafododd y cadeirydd mater oedd yn ymwneud ag eitem 7, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020. Cafwyd eglurhad y gallai aelodau fynychu cyfarfodydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ond gofynnodd y pwyllgor a fyddai modd i wahoddiadau gael eu hanfon i sicrhau bod aelodau yn ymwybodol o ddyddiadau'r cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r cadeirydd eu llofnodi.

5 SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc a'r iaith Gymraeg, adroddiad ar safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Fe atgoffodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd, yr aelodau bod y safonau wedi cael eu cyflwyno ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Fe soniodd yr Arweinydd Tîm am y meysydd yr oedd y Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i weithredu safonau'r Gymraeg:

- Roedd y fewnwyd a oedd yn ffocws i holl weithwyr y Cyngor bellach yn ddwyieithog.
- Roedd gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i staff y Cyngor, ac roedd sesiynau cyfarfod yn cael eu cynnig i'r staff a hoffai ddatblygu eu Cymraeg y tu allan i'r gwersi.
- Fe soniwyd hefyd am becyn croesawu i'r Cyngor a fyddai'n cael ei anfon i bobl sy'n symud i'r ardal i roi gwybod iddynt am Sir Ddinbych, ond hefyd i'w hannog i ddysgu Cymraeg.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Fe ganmolodd yr aelodau nod y Cyngor i gyflawni tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y safonau
- Mynegwyd pryderon ynghylch sut byddai'r cyngor yn delio â chwynion tuag at yr iaith.
Fe atebodd yr Arweinydd gan ddweud bod nifer y cwynion yn isel. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn delio ag unrhyw gwynion y byddant yn ei dderbyn. Dywedodd yr aelod arweiniol bod y Cyngor yn defnyddio siopwyr cudd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau.
- Mewn cysylltiad â thema gohebiaeth yn y safonau, gofynnwyd a oedd negeseuon peiriant ateb yn eglur yn Gymraeg.
Dywedodd yr Arweinydd Tîm bod cefnogwyr y Gymraeg wedi helpu i sicrhau bod negeseuon Cymraeg ar beiriannau ateb yn eglur a chywir.
- Trafodwyd gwersi Cymraeg i staff oedd yn dymuno siarad Cymraeg.
Dywedodd yr Arweinydd Tîm bod gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig ar draws y Cyngor i'r rhai oedd yn dymuno dysgu Cymraeg. Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth y pwyllgor y byddai'r Prif Weithredwr newydd yn cael gwersi Cymraeg yn fuan. Gofynnodd yr aelodau bod eu llongyfarchiadau'n cael eu hanfon ati.
- Canmolodd y pwyllgor y cadeirydd am agor y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg, a gofyn a fyddai modd i holl gyfarfodydd y Cyngor gael eu hagor trwy gyfrwng y Gymraeg.
Dywedodd yr Arweinydd Tîm y gallai'r Cyngor wneud hyn a mynd y tu hwnt i'r hyn roedd Safonau'r Gymraeg wedi'u hamlinellu.

Ar ôl y drafodaeth, dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau bod y Cyngor yn bwriadu penodi rhagor o siaradwyr Cymraeg rhugl ac roedd yn gweithio'n agos gydag Adnoddau Dynol i sicrhau y byddai hyn yn digwydd, er ei bod hi'n anodd penodi staff sy'n siarad Cymraeg mewn i rai swyddi.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

6 STRATEGAETH Y GYMRAEG

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd adroddiad i friffio'r Pwyllgor am Strategaeth y Gymraeg y Cyngor.

Fe nododd yr Arweinydd Tîm y prif themâu a gafodd sylw yn y strategaeth a thynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol):

- Thema 1: Cynllunio Strategol yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych
- Thema 2: Plant a Phobl Ifanc
- Thema 3: Cymunedau
- Thema 4: Busnes a'r economi
- Thema 5: Gweinyddiaeth fewnol o fewn y Cyngor

Dywedodd yr arweinydd tîm wrth yr aelodau bod y Strategaeth ar gyfer 5 mlynedd, cyfnod cymharol fyr ac y byddai'r cyngor yn mynd ati i ddatblygu strategaeth tymor hirach.

Fe dynnodd yr Arweinydd Tîm sylw at meysydd lle mae Sir Ddinbych yn gweithio tuag at y themâu o fewn y Strategaeth:

- Cynigiodd y cyngor wersi Cymraeg i staff oedd yn dymuno dysgu.
- Mae mewnwyd y Cyngor yn ddwyieithog.
- Byddai pobl sy'n symud i fyw i'r Sir yn cael pecyn croesawu i'r cyngor ac yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg.
- Byddai adnoddau dynol yn hysbysebu rhagor o swyddi gyda'r Gymraeg mewn golwg.

Ar ôl i'r Arweinydd Tîm amlinellu'r camau oedd yn cael eu cymryd yn unol â'r Strategaeth aeth yr aelodau ymlaen i drafod y canlynol:

- Roedd yn fanteisiol bod gan y Cyngor staff dwyieithog, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig oedd â niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg, ond gofynnodd aelodau a oedd gan ysbytai ddigon o staff dwyieithog ar gyfer y preswylwyr diamddiffyn oedd yn dymuno sgwrsio yn Gymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau na allai'r Cyngor fynnu beth roedd sefydliadau eraill yn ei wneud.
- Roedd y targed o 0.5% i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn gynydd rhy isel, a chyda lefel mor isel ni fyddai Sir Ddinbych yn helpu i gyflawni'r cynllun i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth ymateb dywedodd yr Arweinydd Tîm bod niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y Sir yn gostwng ac roedd angen targed realistig. Gallai'r cynnydd a osodwyd gael ei gynyddu yn y dyfodol.
- Cafodd parc dŵr SC2 ei drafod, a chytunodd aelodau mai yn anaml iawn roedd acronymau yn cyfieithu'n dda i'r Gymraeg. Fe wnaethant argymhell y dylai enwau safleoedd neu brosiectau yn y dyfodol gael eu trafod i sicrhau bod modd byrhau'r enw yn Gymraeg a Saesneg.
- Mynegodd aelodau bryderon ynghylch diffyg Cymraeg oedd yn cael ei ddysgu mewn rhai ysgolion.

Gofynnwyd iddynt basio unrhyw bryderon ymlaen i'r tîm addysg. Gofynnodd y cadeirydd i'r swyddogion ystyried y pryderon a gafodd eu mynegi gan aelodau.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad yn amodol ar y pwyntiau y soniwyd amdanynt uchod.

7 RÔL SWYDDOG Y GYMRAEG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yr eitem trwy groesawu Swyddog y Gymraeg newydd i'r cyngor a dywedodd wrth yr aelodau y byddai'r Swyddog yn helpu'r Cyngor i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Diolchodd y Swyddog i'r Cyfarwyddwr am y cyflwyniad a rhoddodd gyflwyniad i'r pwyllgor ynglŷn â dyletswyddau a rôl Swyddog y Gymraeg.

- Rhoi cyngor a chymorth i uwch swyddogion, aelodau ac adrannau i weithredu a chydymffurfio'n barhaol â Safonau'r Gymraeg a darparu arweiniad a chefnogaeth o ddydd i ddydd.
- Defnyddio dulliau arloesol a chreadigol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chodi proffil yr iaith mewn modd sydd yn creu agwedd gadarnhaol tuag y Gymraeg o fewn y Cyngor Sir a'r gymuned ehangach.
- Darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg a sesiynau gramadeg y Gymraeg
- Gweithio'n agos gyda'r tîm AD i gynllunio gweithlu mewn perthynas â'r Gymraeg

Cafwyd y drafodaeth ganlynol ar ôl y cyflwyniad:

- **Cyfieithiadau Cymraeg** – gofynnwyd a fyddai Swyddog y Gymraeg yn cyfieithu rhywfaint o waith mewnol i'r Cyngor.
Cafwyd eglurhad mai rôl y Swyddog oedd sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn Safonau'r Gymraeg yn hytrach nag ymgymryd â gwaith cyfieithu.
- **Dyletswyddau Swyddog y Gymraeg** – Gofynnodd y pwyllgor am restr lawn o ddyletswyddau'r Swyddog er mwyn iddynt allu anfon ymholiadau priodol. Cadarnhaodd y byddai rhestr o ddyletswyddau'n cael eu dosbarthu.
- **Arwyddion** - Trafodwyd enwau strydoedd Cymraeg neu ddwyieithog, a pham nad oedd yna gydymffurfriad ar draws Sir Ddinbych.
Gofynnodd yr aelodau bod Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn mynychu cyfarfod yn y dyfodol i egluro beth oedd y broses arwyddion ar draws y Cyngor.

PENDERFYNWYD - derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

8 EISTEDDFOD YR URDD - DIWEDDARIAD

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm – Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd adroddiad i ddiweddarau'r Pwyllgor am gynnydd ar drafodaethau yn ymwneud â dychweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'r sir yn 2020 ac amlinellu'r goblygiadau o ran adnoddau i'r Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr aelodau mai Fferm Kilford ar gyrion tref Dinbych fydd y lleoliad. Hwn oedd lleoliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2013. Mae'r safle wedi'i ddewis gan ei fod eisoes wedi cael ei brofi. Roedd y seilwaith eisoes ar y safle, yn ogystal â digon o dir agored ar gyfer yr ŵyl, meysydd parcio a safle garafanau.

Trafodwyd hefyd y bydd y Cyngor yn sefydlu grŵp strategol i gydlynu trafodaethau â threfnwyr Eisteddfod yr Urdd. Bydd angen i gyfarfod cyntaf y Grŵp Strategol gael ei gynnal ym mis Mehefin 2018 ac yna bob chwarter ar ôl hynny. Cadeirydd y Grŵp Strategol fydd Arweinydd y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm wrth yr aelodau bod cynlluniau ar waith i hyrwyddo Sir Ddinbych gyfan a denu pobl fydd yn mynychu'r Eisteddfod i ymweld â safleoedd eraill yn Sir Ddinbych. Fe dynnodd yr Arweinydd Tîm sylw at nifer o fanteision y gallai'r Eisteddfod ei chael ar yr economi leol:

- Byddai £6m- £8m yn cael ei wario yn yr ardal leol.
- Roedd 30% o ymwelwyr yn aros dros nos
- Roedd 78% o bobl yn gwario arian gyda busnesau lleol
- Roedd 60% yn ymweld â'r Maes am o leiaf deuddydd
- Mae 45%-60% yn teithio hyd at 90 munud i ymweld â'r Eisteddfod.

Fe soniodd yr Arweinydd Tîm am ffigurau Sir y Fflint a sut roeddynt wedi elwa ar ôl i'r Eisteddfod gael ei chynnal yno, cafodd y data ei gasglu gan Beaufort Research:

- Aeth 54% o ymwelwyr i siopau lleol
- Aeth 54% i fwytai lleol
- Aeth 33% i dafarndai lleol
- Defnyddiodd 52% orsafoedd petrol lleol.

Fe soniodd yr aelodau y byddai wedi bod yn braf petai'r Eisteddfod wedi mynd i ardal arall o fewn Sir Ddinbych. Dywedodd yr Arweinydd Tîm bod y safle wedi cael ei ddewis yn sgil llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yno yn flaenorol.

Trafodwyd arwyddion a hyrwyddo Sir Ddinbych i lwyfannu Eisteddfod yr Urdd 2020. Dywedodd yr Arweinydd Tîm y byddai arwyddion yn cael eu harddangos i hysbysebu mai Sir Ddinbych fyddai'n llwyfannu'r Eisteddfod a byddai gan Sir Ddinbych bresenoldeb yn Eisteddfod 2019 yng Nghaerdydd er mwyn hysbysebu mai Sir Ddinbych fyddai'n llwyfannu'r Eisteddfod nesaf. Byddai hefyd yn ffordd o ddangos beth sydd gan Sir Ddinbych fel sir i'w chynnig i ymwelwyr.

PENDERFYNWYD - derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Awgrymodd y cadeirydd y gallai cyfarfod arall gael ei drefnu ar gyfer mis Gorffennaf, a chytunodd swyddogion i chwilio am ddyddiad addas.

Cynigiwyd bod cefnogwr y Gymraeg yn cael ei g/wahodd i hysbysu'r aelodau o'u gwaith.

Fe awgrymodd y cadeirydd bod themâu unigol y strategaeth yn cael eu craffu yn fanwl ym mhob cyfarfod, yn hytrach na'r strategaeth gyfan ym mhob cyfarfod.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Strategol Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Gorffennaf 2018
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Cynghorydd Huw Hilditch Roberts/ Nicola Stubbins
Awdur yr Adroddiad:	Gareth Watson
Teitl:	Adroddiad Monitro Iaith Gymraeg Blynyddol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Monitro Iaith Gymraeg Blynyddol y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2071/18, sydd yn ofyniad statudol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei wefan, a disgwylir i'r adroddiad fanylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Iaith Gymraeg.

Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau, i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi adroddiad.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyrhaeddiadau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion Iaith Gymraeg yr ydym wedi eu hadrodd yn eu herbyn; camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau a gwybodaeth ar lefelau ieithyddol staff.

Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar gynnydd gyda'r fframwaith Mwy Na Geiriau a Chynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim cyllid benodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu gwneud gydag Archwilio ac eraill?

Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg I hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.

Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Monitro Blynyddol 2017- 2018

1. Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau Iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Iaith Gymraeg. Nid yw'r ymrwymiad hwnnw wedi newid ac rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Nicola Stubbins, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Huw Hilditch Roberts a oedd yn gyfrifol am Blant, Pobl Ifanc, Addysg a'r Iaith Gymraeg dros gyfnod yr adroddiad hwn.

Mae'r gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg yn gyfrifoldeb yr Arweinydd Tîm ar gyfer Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd, gyda rôl swyddog Iaith Gymraeg strategol hefyd wedi'i chyflwyno i'r Cyngor ar ddechrau 2018.

Prif ffocws y Cyngor yn 2017/18 oedd parhau i weithredu Safonau'r Gymraeg yn yr awdurdod, gan weithio'n agos â Phencampwyr y Gymraeg ar draws y sir i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio gyda'r 167 o Safonau o dan y penawdau Cynllunio Gwasanaethau, Creu Polisiâu, Hyrwyddo a Chadw Cofnodion.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo ei Strategaeth Iaith Gymraeg gyda blwyddyn bellach wedi mynd heibio ers cyflwyno'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, a llwyddiannau wedi eu nodi. Wele Atodiad A sy'n disgrifio'r prif lwyddiannau o dan bob pennawd thematig.

Yn ogystal â'r Safonau newydd ar gyfer y Gymraeg, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith Mwy Na Geiriau a'r Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

2. Datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn

Mae nifer o brosiectau allweddol wedi cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu cyflwyno/ Dyma rai o'r prosiectau hynny:

Pencampwyr y Gymraeg:

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor bellach Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tri mis i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion gorau a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth trylwyr o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig gan gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a chwsmer cudd ynghyd â gweithgareddau eraill i gydweithwyr a dysgwyr.

Swyddog Iaith Gymraeg

Ar ddechrau 2018 cafodd swydd newydd ei chyflwyno i'r awdurdod mewn ymdrech i wella'r cyfleoedd i hybu'r Gymraeg yn yr awdurdod.

Prif gyfrifoldebau'r rôl yw:

- *Rhoi cyngor a chymorth i uwch-swyddogion, aelodau ac adrannau i weithredu a chydymffurfio'n barhaus â Safonau'r Gymraeg ynghyd â rhoi arweiniad ac atebion o ddydd i ddydd.*
- *Defnyddio ffyrdd arloesol a chreadigol o hybu defnyddio'r Gymraeg a chodi proffil yr iaith mewn ffordd sy'n creu agwedd gadarnhaol at y Gymraeg yn y Cyngor Sir ac yn y gymuned ehangach.*
- *Darparu sesiynau a hyfforddiant Gramadeg Cymraeg ac mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.*
- *Gweithio'n agos â'r tîm Adnoddau Dynol i ddatblygu a chynllunio'r gweithlu yng nghyswllt y Gymraeg.*

Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg

Sefydlwyd Grŵp i weithredu fel cyfaill beirniadol i'r awdurdod ac i gefnogi ei ymdrechion i wella'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r sefydliad.

Mae 11 o aelodau i gyd, bob un yn cynrychioli'r holl grwpiau gwleidyddol. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn agored i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r fath dros y cyfnod hwn. Bu'r aelodau'n ystyried amryw o faterion, gan gynnwys cynnydd gyda'r Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg; Mwy Na Geiriau, Safonau'r Gymraeg, cynnydd gyda'r Strategaeth Iaith Gymraeg a diweddariad ar ailymweliad Eisteddfod yr Urdd â'r sir yn 2020.

Bwriedir cynnal cyfarfodydd pellach yn 2018/19.

Strategaeth Iaith Gymraeg:

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth ar gyfer sut y bydd yn hybu'r iaith dros y pum mlynedd nesaf a bellach daeth at ddiwedd ei 12 mis cyntaf. Mae'r Strategaeth wedi ei thorri lawr yn feysydd penodol: Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys addysg a gwaith ieuenctid); Busnes a'r Economi; Cymunedau; Gweinyddiaeth Fewnol y Cyngor a datblygiad strategol yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Mae llwyddiant y strategaeth hon yn cael ei fonitro gan Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg. Rhoddir crynodeb o'r prif weithgareddau dros y flwyddyn yn Atodiad A.

Gweithio mewn Partneriaeth:

Mae'r Cyngor yn bartner gweithredol ar Fforwm Iaith Sir Ddinbych, Partneriaith. Mae'n cynnal cyfarfodydd tri misol o'r Fforwm ac yn cymryd ei dro i'w cadeirio.

Mae'n rhoi diweddariad tri misol ar ddatblygiad strategol yr Iaith Gymraeg, y cyfleoedd i gyflawni hyfforddiant a datblygu a hefyd yn gweithio'n agos â sefydliadau eraill i hyrwyddo cydweithio a chydweithrediad agosach.

Mae'r Cyngor wedi arwain ar ddarn sylweddol o waith i fapio gweithgareddau'r Gymraeg ar draws y sir a hefyd wedi creu Cylch Gorchwyl newydd sbon ar gyfer y Grŵp.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth ariannol i Fenter Iaith Sir Ddinbych drwy grant blynyddol a thrwy'r Urdd yn lleol. Defnyddir cyllid yr Urdd i gyflogi swyddog sy'n helpu'r awdurdod i drefnu gweithgareddau i bobl ifanc ar draws y sir.

Mewnwyd Staff

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mewnwyd newydd o'r enw Linc, mewn ymateb uniongyrchol i'r Safonau Iaith Cymraeg. Mae'r fewnwyd yn gwbl ddwyieithog, gyda phob tudalen a dolen yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb dros gydlynw'r cynnwys yn gyfrifoldeb l'r Uned Gyfathrebu.

Cynllunio'r Gweithlu

Mae disgwyl i bob gwasanaeth greu dogfen cynllunio'r gweithlu ac mae disgwyl i'r gwasanaethau gysidro os oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael eu herio gan yr Uwch Dim Rheoli a chynghorwyr parthed cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith.

3. Dangosyddion Iaith Gymraeg

Rhoddir ymateb isod i'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg y mesurir cynnydd yn eu herbyn yn Sir Ddinbych.

<p>Nifer a chanran y swyddi yn y brif dderbynfa, yn y ganolfan gyswllt neu yn y siopau-un-alwad sy'n dynodi bod y Gymraeg yn hanfodol a chanran y rhai a lenwir gan siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>Mae 9 aelod o staff yn y Ganolfan Alwadau / Prif Dderbynfa – mae 6 ohonynt yn siarad Cymraeg.</p> <p>Mae dau o staff rhan amser hefyd yn gweithio i'r gwasanaeth. Mae'r ddwy yn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae 66% o'r staff yn Siopau-Un-Alwad y Cyngor yn siarad Cymraeg.</p>
<p>Canran y sampl o gontractau wedi eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.</p>	<p>Mater i wasanaethau unigol yw sicrhau bod eu contractau'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith. Mae 100% o'r contractau wedi eu monitro, yn unol â chanllawiau corfforaethol.</p>
<p>Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun Iaith a chanran y cwynion y deliwyd â hwynt yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.</p>	<p>Cofnodwyd pedwar cwyn ffurfiol yng nghyswllt y Gymraeg gan y Cyngor yn ymwneud ag arwyddion, gwersi nofio ac enwi un o gyfleusterau'r Cyngor.</p> <p>Cafodd bob un o'r cwynion (100%) sylw o fewn yr amserlen gorfforaethol.</p> <p>Nifer y cwynion yn ymwneud â honiadau o beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg – tri: Gwersi nofio (dim ymchwiliad), enwi un o gyfleusterau'r Cyngor (dim ymchwiliad) ac arwyddion ar beiriant talu maes parcio (ymchwiliad ar fin cael ei gynnal).</p>
<p>Nifer a chanran y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) a dderbyniodd hyfforddiant yn y</p>	<p>Mae 39 o staff yn mynychu blynyddoedd 1, 2, 3 a 5 a dim ym mlwyddyn 4 - roeddent i gyd ym mlwyddyn 5.</p>

<p>Gymraeg i lefel gymhwysedd benodol.</p>	<p>Mae 11 o'r 39 yma'n mynychu'r cwrs Iaith Gwaith, sy'n gwrs wedi'i ariannu.</p> <p>I gyd yn 2016/17, mae 39 o unigolion wedi bod ar gyrsiau hyfforddi ffurfiol a gynigir drwy Goleg Cambria.</p>
<p>Nifer a chanran y staff sy'n gweithio i'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Yn ôl adran wasanaeth 2) Yn ôl graddfa swydd 3) Yn ôl gweithle 	<p>Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu'n flynyddol gan y Cyngor ar ei system Trent – rhoddir y canlyniadau yn Atodiad 2.</p>

Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn disgwyl i'r Cyngor adrodd, yn ei adroddiad blynyddol, ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rhoddir crynodeb o'r wybodaeth isod.

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaeth.

- Rydym wedi cyfathrebu gyda staff ar ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi sicrhau bod y staff i gyd yn rhoi cyfle i bobl gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor.
- Rydym wedi cyflwyno un rhif ffôn ar gyfer prif switsfwrdd y Cyngor, sy'n rhoi'r opsiwn i bobl o ddewis Gwasanaeth Iaith Gymraeg.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyrau, gan roi cyfle i breswylwyr ofyn am ohebiaeth drwy'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi cynnwys neges yn neges wedi'i recordio'r Ganolfan Gyswllt yn dweud bod llinell iaith Gymraeg ar gael.
- Rydym wedi rhoi gwybod i staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus bod yn rhaid i gyhoeddusrwydd / gwahoddiadau fod yn Gymraeg bob tro, y dylid trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y medrant gyfrannu yn Gymraeg.
- Mae'r holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo a dogfennau arddangosfa.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan yn ddwyieithog.
- Ymatebwn i bob ffurflen grant a dderbyniwn yn Gymraeg.

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu yn 2016/17

- Rydym wedi creu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar ein mewnwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses Adnoddau Dynol yn gofyn i'r holl staff a ydynt am dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu cyflogaeth, ac sy'n cyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn Gymraeg.

- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu cynllun gyrfya yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau hyblyg yn Gymraeg.
- Gall staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg drwy weithdrefn cwynion corfforaethol gyda hyn wedi'i hysbysu i'r holl staff.
- Mae Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi bod gan staff hawl i wneud cwyn yn Gymraeg ac i ymateb i gŵyn a wneir amdanynt yn Gymraeg. Mae staff wedi eu hysbysu o'r hawliau hyn.
- Rhoddir cyfle i'r holl staff ofyn am unrhyw gyfarfod yn ymwneud â chwynion yn eu herbyn yn Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd cofnod o bob penderfyniad am gŵyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg (a chynhelir unrhyw gyfarfod wedyn yn Gymraeg).
- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn nodi y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol gwirio sillafu a gramadeg wedi'i roi i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ynghyd â rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (fel Microsoft Word) yn Gymraeg.
- Rydym wedi cyfieithu testun tudalen gartref ein mewnrwyd i'r Gymraeg.
- Mae bob tudalen ar y fewnrwyd sydd â thudalen gyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen i'r dudalen iaith Gymraeg honno.
- Crëwyd tudalennau ar y fewnrwyd yn darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth er mwyn hybu'r Gymraeg a chynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ei staff drwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pob cyfle yn ystod oriau gwaith i staff fynychu cyrsiau iaith Gymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i staff sydd am barhau â'u hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol i dderbyn hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Mae gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei rhoi i bob aelod newydd o staff.
- Rydym wedi rhoi geiriad i staff i'w ddefnyddio yn eu llofnodion e-bost i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

Sgiliau Ieithyddol Staff

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu Cynllunio eu Gweithluoedd.

	Wedi datgan gallu cymedrol neu well	Gallu llai na chymedrol	Anhysbys / heb ddatgan
Ydych chi'n siarad Cymraeg?	15%	41%	44%
Allwch chi wrando / ddeall Cymraeg?	16%	41%	43%
Allwch chi ddarllen Cymraeg?	14%	44%	42%
Allwch chi ysgrifennu Cymraeg?	12%	47%	41%
Cyfartalog	14%	43%	43%

	Cymraeg	Saesneg	Anhysbys / heb ddatgan
Iaith gohebu	2%	30%	68%

Deall Cymraeg:

Gwasanaeth	Ddim o gwbl	Ychydig	Cymedrol	Eithaf rhugl	Rhugl	Anhysbys	Cyfanswm
Gwella a Moderneiddio Busnes	27	23	18	8	12	7	95
Adran y Prif Weithredwr					1	1	2
Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	225	96	41	11	18	173	564
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	1	1				1	3
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	10	25	9	4	52	1	101
Gwasanaethau Addysg a Phlant	84	69	18	9	20	104	304
Cyfleusterau, Asedau a Thai	286	259	76	48	93	27	789
Cyllid	19	11	6	4	2	14	56
Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol	113	73	21	8	19	114	348
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	23	25	6	3	19	9	85
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	28	31	15	5	21	24	124
Ysgolion	339	143	70	31	104	1,538	2,225
Prif Gyfanswm	1,155	756	280	131	361	2,013	

Canran o'r Gwasanaeth sy'n gallu gwrando / deall Cymraeg i lefel gymedrol neu well:

	Cymedrol+
Gwella a Moderneiddio Busnes	40%
Adran y Prif Weithredwr	50%
Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	12%
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	0%
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	64%
Gwasanaethau Addysg a Phlant	15%
Cyfleusterau, Asedau a Thai	28%

Cyllid	21%
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	14%
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	33%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	33%
Ysgolion	9%
Cyfanswm	16%

Darllen Cymraeg:

Gwasanaeth	Ddim o gwbl	Ychydig	Cymedrol	Eithaf rhugl	Rhugl	Anhysbys	Cyfanswm
Gwella a Moderneiddio Busnes	32	26	13	7	10	7	95
Adran y Prif Weithredwr					1	1	2
Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	248	75	40	7	14	180	564
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	1	1				1	3
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	18	20	8	8	46	1	101
Gwasanaethau Addysg a Phlant	100	64	15	10	16	99	304
Cyfleusterau, Asedau a Thai	380	200	63	44	76	26	789
Cyllid	20	12	4	3	2	15	56
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	141	59	18	6	13	111	348
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	28	20	7	2	19	9	85
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	44	24	13	4	18	21	124
Ysgolion	407	128	74	21	98	1,497	2,225
Prif Gyfanswm	1,419	629	255	112	313	1,968	4,696

Canran o'r Gwasanaeth sy'n gallu darllen Cymraeg i lefel gymedrol neu well:

	Cymedrol+
Gwella a Moderneiddio Busnes	32%
Adran y Prif Weithredwr	50%
Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	11%
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	0%
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	61%
Gwasanaethau Addysg a Phlant	13%
Cyfleusterau, Asedau a Thai	23%
Cyllid	16%
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	11%
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	33%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	28%
Ysgolion	9%
Cyfanswm	14%

Ysgrifennu Cymraeg:

Gwasanaeth	Ddim o gwbl	Ychydig	Cymedrol	Eithaf rhugl	Rhugl	Anhysbys	Cyfanswm
Gwella a Moderneiddio Busnes	41	27	10	4	7	6	95
Adran y Prif Weithredwr					1	1	
Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	275	73	28	6	11	171	564
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	1	1				1	
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	23	18	10	8	41	1	101
Gwasanaethau Addysg a Phlant	119	50	16	7	14	98	304
Cyfleusterau, Asedau a Thai	431	174	57	37	65	25	789
Cyllid	26	13	3		2	12	56
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	162	47	12	7	11	109	348
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	34	19	3	3	17	9	85
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	52	26	7	4	16	19	124
Ysgolion	462	119	65	22	89	1,468	2,225
Prif Gyfanswm	1,626	567	211	98	274	1,920	

Canran o'r Gwasanaeth sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg i lefel gymedrol neu well:

	Cymedrol+
Gwella a Moderneiddio Busnes	22%
Adran y Prif Weithredwr	50%
Gwasanaethau Cefnogi'r Gymuned	8%
Cyfarwyddwyr Corfforaethol	0%
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	58%
Gwasanaethau Addysg a Phlant	12%
Cyfleusterau, Asedau a Thai	20%
Cyllid	9%
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	9%
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	27%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	22%
Ysgolion	8%
Cyfanswm	12%

Diweddariad ar weithredu Mwy Na Geiriau (2017-18)

- Mae eitemau rheolaidd am y Gymraeg, adnoddau a gwybodaeth am wahanol gyrsiau hyfforddiant am ddim (Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r 'Cynnig Gweithredol') wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr SCWDP sy'n cael ei ddosbarthu i bob darparwr yn Sir Ddinbych. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth am y Diwrnod Shwmai a'r Dydd Miwsig.
- Mae gwybodaeth am y Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol hefyd wedi'i hymgorffori yn y cyfarfod croeso ar gyfer staff newydd i'r Adran ac i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol fel rhan o'r cwrs cynefino. Yn ogystal, cafodd cyflwyniad ar y "Cynnig Gweithredol" ei gyfathrebu i dros 300 o staff o Wasanaethau Cefnogi'r Gymuned.
- Mae Adnoddau Dynol (AD) Corfforaethol yn mapio sgiliau iaith staff y Cyngor ar I-Trent a pharatowyd proffil cymunedol iaith Gymraeg ar gyfer y Cyngor (wedi'i oleuo gan Adroddiad yr Asesiad Poblogaeth a gynhyrchwyd o dan a.14 Deddf SSWB).
- Cyflwynwyd cynllun cyfeillio a sesiwn anffurfiol 'Siarad siop a phaned' i gynig cefnogaeth ychwanegol rhwng gwersi ac er mwyn magu hyder y staff i siarad Cymraeg yn yr Adran.

Mae ein holiadur profiad cwsmeriaid hefyd yn monitro a dderbyniodd bobl wasanaeth yn iaith eu dewis. Mae'r canlynol wedi'i godi o ddadansoddiad o'r arolwg Dweud eich Dweud, yng nghyswllt y cwestiwn: 'Rwyf wedi gallu cyfathrebu yn iaith fy newis'.

Atebodd 424 o bobl y cwestiwn hwn gyda 99% yn dweud eu bod wedi gallu cyfathrebu yn iaith eu dewis.

Diweddariad ar Gynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg

- Mae'r cydweithrediad agos yn parhau rhwng partneriaid er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r cyfleoedd ymhellach.
- Mae'r gefnogaeth a'r cydweithrediad gyda Mudiad Meithrin yn parhau ac yn llwyddo.
- Byddwn yn parhau i weithio ar brosiectau ac i ddatblygu ymhellach dros y misoedd i ddod.
- Ar hyn o bryd mae 73% o ysgolion cynradd yn cynnig 50% neu lai o'u haddysg drwy'r Gymraeg.
- Mae'r Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn mynd o flaen Gabinet Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mai 2018.
- Mae'r awdurdod lleol wedi lansio "Cymraeg Campus" ym mhob ysgol categori 4 a 5 gan sicrhau bod proffil y Gymraeg wedi'i gryfhau. Bydd yr ysgolion yn gwneud cais am gydnabyddiaeth gwobr efydd ac yn cael eu hasesu ar eu gweithredu.
- Mae cais wedi'i wneud i holl staff yr ysgolion gwblhau archwiliad o sgiliau iaith. Defnyddir y data hwn i dargedu ysgolion a staff a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach.
- Cafodd yr awdurdod hwb anferth y llynedd wrth i bob un o'r Ysgolion Cyfrwng Cymraeg llwyddo i ennill gwobr Arian y Siarter Iaith. Mae'r ysgolion yn awr yn ymgeisio am y wobwr aur, sy'n eithriadol heriol. Bydd yr ysgolion yn cael eu hasesu yn y dyfodol agos i weld a ydynt wedi llwyddo gyda'r wobwr aur.
- Lansiwyd cynllun marchnata i hybu addysg cyfrwng Cymraeg hefyd. Bydd llyfryn marchnata'n cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos i godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.
- Ar 15 Mawrth 2018, cynhaliwyd sesiwn i Lywodraethwyr ar y datblygiadau mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r gobaiith o gyrraedd Miliwn o Siaradwyr.

Strategaeth Iaith Gymraeg

Isod rhoddir crynodeb o'r gweithredu a wnaed eisoes fel rhan o'r Strategaeth:

- Mae Fforwm Iaith y Sir wedi cytuno i gylch gorchwyl, cylch gwaith ac aelodaeth ddiwygiedig. Mae'r prif ffocws ar gydweithredu ac mae pob sefydliad yn glir o ran beth yw'r disgwyliadau.
- Mae'r Cyngor a'i brif bartneriaid wedi ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg, er mantais ehangach i'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.
- Mae'r Cyngor yn adolygu effaith ei bolisïau a'i benderfyniadau ar y Gymraeg ac ar gymunedau, gyda phroses yn ei lle i ystyried effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral ei benderfyniadau.
- Mae bob partner ar Fforwm Iaith y Sir yn marchnata bod cyrsiau Iaith Gymraeg ar gael yn y gymuned.
- Mae'r Fforwm Iaith yn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau allweddol ar draws y Sir er mwyn hybu'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys Sioe Dinbych a Fflint, sioeau carnifal tref a'r Sioe Awyr.
- Mae'r holl bartneriaid yn traws-hyrwyddo digwyddiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau.
- Lansiwyd ymgyrch i hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych.
- Mae'r Cyngor yn gweithredu'r Fframwaith Mwy Na Geiriau'n llawn yn y Sir i sicrhau bod cyngor a gwybodaeth am iechyd a lles ar gael yn Gymraeg i bobl.
- Mae cynllun mentora a chyfeillio'r Cyngor hefyd wedi'i ail-lansio.
- Mae Pwyllgor y Gymraeg wedi'i sefydlu a'i weithredu.
- Mae Pencampwyr Iaith Gymraeg y Cyngor yn parhau i weithredu fel llysgenhadon ar gyfer y Gymraeg yn y Sir.
- Mae'r cyrsiau Iaith Gymraeg gan ddarparwyr lleol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael eu hyrwyddo i staff.
- Asesir lefelau sgiliau iaith y staff yn flynyddol a bydd yn cael ei ailadrodd yn fuan.
- Mae gan yr holl siaradwyr a dysgwyr Cymraeg fynediad at becynnau Microsoft Word a Cysill/ Cysgair.
- Trefnwyd sesiynau Gloywi Iaith ar gyfer staff.
- Mae mewnwyd y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.

Datblygu'r Economi

- Mae cyfres o raglenni wedi eu cyflwyno i hybu'r Gymraeg gyda busnesau'r Sir.
- Maen nhw'n cynnwys rhaglen hyfforddiant peilot ar ddwyieithrwydd i fusnesau 'r Sir. Mae Iaith Cyf wedi cysylltu â'r rhai a fynychodd yr hyfforddiant Cymraeg mewn Busnes i gynnig hyfforddiant pellach fel rhan o'u prosiectau dysgu pellach.
- Cynhaliwyd sesiynau i fusnesau ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae busnesau wedi derbyn dogfen briffio ar fanteision dwyieithrwydd.
- Mae enghreifftiau o arferion gorau gan fusnesau gyda darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg wedi'u hyrwyddo drwy'r cyfryngau lleol, y cyfryngau cymdeithasol ac mewn cyhoeddiadau corfforaethol.
- Mae pencampwyr busnes yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y Gymraeg yn y Sir.

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
Gorffennaf 2018	1	Cynnydd gyda Safonau'r Gymraeg (hunan-asesiad)	Ystyried diweddariad ar yr hunan-asesiad	
	2	Adroddiad Blynyddol Monitro'r Iaith Gymraeg	Cytuno ar Adroddiad Blynyddol Monitro'r Iaith Gymraeg sydd angen ei gyhoeddi erbyn Mehefin 30.	Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Gareth Watson
	3	Rôl Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg	Rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor am waith parhaus Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg	Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Gareth Watson
Hydref 2018				

Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau

<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiau Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiau Cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiau Cau</i>

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag